# BAGLORIAETH CYMRU
Uwch

# Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
## Cyfoeth Naturiol Cymru
## Egni Adnewyddadwy

**Ar gael i'w asesu o fis Mai 2017**

© WJEC CBAC Ltd. AGAW11

# Egni Adnewyddadwy

**DIBEN**

Diben yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yw datblygu sgiliau dysgwyr, wrth ddarparu cyfleoedd iddynt ddeall materion byd-eang ac ymateb yn briodol iddynt. Fel rhan o'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym maes **Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Creadigedd ac Arloesi** a **Llythrennedd** ac yn eu defnyddio mewn modd priodol.

**BRIFF**

Diben **Cyfoeth Naturiol Cymru** yw sicrhau yn ei holl waith bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru, a darparu gwell dyfodol i bawb.



Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** (CNC) yn cynnal busnesau a mentrau ar yr ystâd sy'n eiddo iddo a'r ystâd a reolir ganddo, gan gynnwys cynlluniau ynni adnewyddadwy fel datblygu ffermydd gwynt a phŵer trydan dŵr. Yn ogystal â chwilio am ffyrdd i ddatblygu'r cyfleoedd hyn ymhellach, mae CNC hefyd yn edrych ar ffyrdd newydd i gynhyrchu incwm y gellir ei ail-fuddsoddi wedyn er budd ein hadnoddau naturiol a'n hamgylchedd.

Mae ein ffrydiau gwaith presennol yn cynnwys:

- Rhaglen Ynni Gwynt
- Rhaglen Ynni Dŵr ar Raddfa Fach
- Mynediad Trydydd Parti ar gyfer Rhaglen Ynni
- Biomas

Mae'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yn rhoi cyfle i chi ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o **reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer cynhyrchu egni** a datblygu dealltwriaeth o'r her a wynebir ledled y byd wrth fynd i'r afael â'r mater hwn. Drwy ddatgloi'r potensial sy'n gorwedd o fewn adnoddau naturiol Cymru, a'u rheoli a'u defnyddio mewn ffordd sy'n fwy cydgysylltiedig, gallant ein helpu i wynebu'r heriau sydd o'n blaenau. Byddwch yn datblygu ac yn cefnogi dadleuon, safbwyntiau neu bersbectif penodol ar y mater byd-eang i lunio eich **Safbwynt Personol**.

Os am ganfod atebion ymarferol, mae'n hanfodol rhannu eich syniadau ynghylch ffyrdd y gellir gweithredu drwy ymgysylltu ag eraill. Mae'r Her yn darparu cyfle i chi hyrwyddo eich syniadau personol o atebion a strategaethau i fynd i'r afael â chynhyrchu egni mewn Cynhadledd Dewisiadau Byd-eang.

Dyma fydd ffocws y Gynhadledd Dewisiadau Byd-eang y byddwch yn cyfrannu ati:

**"Mae ein hadnoddau naturiol yn dod o dan bwysau cynyddol gyda'r angen i gynhyrchu egni. Sut y gellir mynd i'r afael â'r mater byd-eang hwn?"**

Dylech gyfleu eich neges mewn modd creadigol ac arloesol er mwyn ymgysylltu â'r gynulleidfa a'u hannog i feddwl ac ymddwyn fel dinasyddion byd-eang. Bydd y sgiliau y byddwch yn eu datblygu yn yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yn rhoi'r gallu a'r hyder i chi fod yn ddinesydd byd-eang gweithgar, sy'n barod i wneud gwahaniaeth positif yn y byd.

**ADNODDAU**
https://naturalresources.wales/splash?orig=/

**MANYLION CYSWLLT**
E-bost: education@naturalresourceswales.gov.uk Gwefan: www.naturalresources.wales

© WJEC CBAC Ltd.